Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

GWEINYDDWR DESG GWASANAETH TGCh

Adran TGCh
Gradd 5,
Cytundeb Parhaol
37 awr yr wythnos
CYFLOG: o £24,294 i £24,702

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer rôl Gweinyddwr Desg Gwasanaeth TGCh o fewn yr Adran TGCh, a leolir ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu swyddogaeth Desg Gwasanaeth TGCh, gan sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi mewn modd cywir a manwl, er mwyn helpu i ddatrys problemau ar gyfer defnyddwyr systemau TGCh y Gwasanaeth Tân yn brydlon. Byddant hefyd yn darparu cymorth gweinyddol ar gyfer yr holl gaffael TGCh, gan gynnwys prosesu a thalu anfonebau.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd allu dangos profiad mewn rôl gefnogol a phrofiad o ddefnyddio Microsoft Office. Mae profiad o brosesu archebion yn ddymunol, ond nid yn hanfodol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Gallai'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad cofnod troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi/iddynt ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei chyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/swyddi- gwag-cyfredol/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n ymgeisio gyflwyno cais trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag gyda'r System Ddyletswydd Wrth Gefn.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Chwefror 29ain 2024 12:00 canol dydd.**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.